# Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

| | | |
|---|---|---|
| Paratowyd gan: | Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant | |
| Cymeradwywyd gan: | Uwch Dîm Arwain | 03/12/13<br>02/05/17<br>22/05/19 |
| | Cyfarfod arbennig TAS | 24/08/21 |
| | Gweithgor Undebau | 17/01/17 |
| | Grwp Cydraddoleb ac Amrywiaeth | 10/05/17<br>23/01/19 |
| | Polisi Cyflogaeth | 03/02/14<br>13/11/17<br>03/06/19 |
| | Adnoddau | 15/11/21 |
| Asesiad Effaith: | Mawrth 2017, Gorffennaf 2021 | |
| Adolygwyd: | Ionawr 2017, Ionawr 2019, Tachwedd 2021 | |
| Dyddiad Adolygu: | Tachwedd 2025 | |

## 1. Pwrpas

Bydd y coleg yn sicrhau bod yr holl gydweithwyr, dysgwyr, llywodraethwyr, a phobl sydd â chyswllt â'r coleg yn cael eu trin mewn ffordd sy'n cyfleu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei holl weithgareddau. Mae'r polisi hwn yn nodi ymrwymiad y coleg i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, fel cyflogwr ac fel darparwr gwasanaeth, ac mae'n cefnogi datblygiad amgylcheddau dysgu a gweithio cynhwysol a chefnogol ar gyfer pob dysgwr a chydweithiwr lle mae pob unigolyn yn cael cyfle i gyflawni ei botensial.

## 2. Deddfwriaeth

2.1 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cydgrynhoi deddfwriaeth cydraddoldeb flaenorol mewn un Ddeddf, sy'n amddiffyn staff, dysgwyr, a derbynwyr gwasanaethau rhag gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ar sail nodweddion penodol: Rhywedd, Oedran, Anabledd, Hunaniaeth Rhywedd, Hil, Crefydd neu Gredo, Cyfeiriadedd Rhywiol, Priodas a Phartneriaeth Sifil (mewn cyflogaeth yn unig) a Beichiogrwydd a Mamolaeth.

2.2 Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, roi 'sylw dyledus' i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

2.3 Fel rhan o ymrwymiad parhaol Llywodraeth Cymru i ddod i'r afael efo gwrth-semitiaeth, mae'r coleg wedi derbyn diffiniad dros dro Cynghrair Rhyngwladol Cofio'r Holocost (IHRA) ar gyfer gwrthsemitiaeth.

Dyma ddiffiniad IHRA:

“Math o ganfyddiad o Iddewon, a all gael ei gyfleu fel casineb tuag at Iddewon, yw gwrthsemitiaeth. Amlygir gwrthsemitiaeth drwy iaith a gweithredoedd corfforol sydd wedi'u hanelu at Iddewon neu unigolion nad ydynt yn Iddewon a/neu eu heiddo; ac at sefydliadau cymunedol a chyfleusterau crefyddol Iddewig.

## 3. Datganiad Polisi

3.1 Bydd y coleg yn trin cydweithwyr a dysgwyr â pharch ac urddas ac yn darparu amgylchedd gwaith a dysgu sy'n rhydd o wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth. I’r perwyl hwn, o fewn fframwaith y gyfraith ac arfer orau, mae’r coleg wedi ymrwymo, lle bynnag y bo’n ymarferol, i gyflogi gweithlu a recriwtio dysgwyr sy’n adlewyrchu’r gymuned leol.

3.2 Nod y coleg yw meithrin ac annog dysgu a thwf personol ei holl gydweithwyr a dysgwyr mewn amgylchedd croesawgar, hygyrch ac ysgogol, gan hyrwyddo a dathlu amrywiaeth. Bydd y Coleg yn ymdrechu i greu cymuned agored, ddisgybledig a gofalgar trwy bwysleisio cyflawniad personol pob dysgwr ac aelod o staff.

3.3 Ni fydd unrhyw gydweithiwr neu ymgeisydd am swydd, dysgwr, nac ymgeisydd cwrs, o dan anfantais nac yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd amodau neu ofynion na ellir eu cyfiawnhau'n rhesymol. Cymerir camau priodol i sicrhau bod unigolion yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.

3.4 Ni fydd y coleg yn goddef unrhyw fath o ymddygiad neu weithgaredd sy'n gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil, crefydd neu gred. Ymdrinnir â gweithredoedd o’r fath fel camymddwyn o dan weithdrefnau cwyno a/neu ddisgyblu’r coleg, a chymerir camau priodol. Gallai cwynion arbennig o ddifrifol fod yn gyfystyr â chamymddwyn difrifol ac arwain at ddiswyddo heb rybudd.

Ymhellach, gall aflonyddu rhywiol fod yn fater hawliau cyflogaeth ac yn fater troseddol, megis mewn honiadau o ymosodiad rhywiol. Yn ogystal, mae

aflonyddu o dan Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 – nad yw wedi'i gyfyngu i amgylchiadau lle mae aflonyddu'n ymwneud â nodwedd warchodedig – yn drosedd.

3.5 Bydd y coleg yn sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, fel y bo'n briodol, i alluogi cydweithwyr a dysgwyr anabl i oresgyn anfantais sylweddol yn yr amgylchedd gwaith a dysgu, ac yn y defnydd o gyfleusterau hamdden a ddarperir gan y Coleg.

3.6 Mae'r Coleg wedi cynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol a bydd yr Adran Pobl a Diwylliant yn monitro ei gynnydd.

3.7 Mae'r coleg yn hwyluso rhwydweithiau cydweithwyr a dysgwyr i gefnogi rhai grwpiau.

## 4. Gweithredu'r Polisi

Mae Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Coleg yn goruchwylio gweithrediad y polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, er ei fod yn cydnabod bod angen i bob aelod o staff a dysgwr gydymffurfio â'r ymddygiadau hyn.

## 5. Cyfrifoldebau

5.1

Mae llywodraethwyr yn gyfrifol am sicrhau:

- bod cynllun cydraddoldeb strategol y coleg yn cynnwys ymrwymiad i gydraddoldeb
- bod hyfforddiant cydraddoldeb yn rhan o gynllun cydraddoldeb strategol y coleg
- eu bod yn ymwybodol o gyfrifoldebau statudol y coleg mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel cyflogwr.

5.2 Mae deiliaid uwch swyddi yn gyfrifol am arwain y gwaith o greu ethos cadarnhaol, cynhwysol sy'n herio ymddygiad amhriodol neu wahaniaethol mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig ar ran rheolwyr, cydweithwyr a dysgwyr.

5.3 Mae Cyfarwyddwyr/Rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau:

- eu bod yn ymwybodol o ddyletswyddau statudol y coleg mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- bod pob agwedd ar bolisi a gweithgaredd y coleg yn sensitif i faterion yr holl nodweddion gwarchodedig
- bod y gweithdrefnau ar gyfer recriwtio cydweithwyr a dysgwyr, a hyrwyddo cydweithwyr, yn dangos arfer gorau mewn cyfle cyfartal
- bod deunyddiau cyhoeddusrwydd y coleg yn cyflwyno negeseuon cadarnhaol priodol, heb fod yn ystrydebol, am bobl o gefndiroedd amrywiol
- y darperir dysgu a datblygiad priodol i gefnogi gwerthfawrogiad a dealltwriaeth o amrywiaeth.

5.4 Mae cydweithwyr yn gyfrifol am sicrhau:

- eu bod yn ymwybodol o ddyletswyddau statudol y coleg mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- y gallant herio neu adrodd am ymddygiad amhriodol gan ddysgwyr, darparwyr lleoliadau gwaith, contractwyr allanol neu gydweithwyr eraill
- bod y coleg, a phob un o'i gydweithwyr unigol pryd bynnag y bo'n ymarferol, yn wynebu neu'n adrodd am wahaniaethu ar sail cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant boed yn fwriadol neu'n anfwriadol gan gynnwys unrhyw achos sy'n digwydd ar gyfryngau cymdeithasol, pryd bynnag y mae'n digwydd
- y dylai pob cydweithiwr ddeall y gallant hwy, yn ogystal â'u cyflogwr, fod yn atebol am weithredoedd o fwlio, aflonyddu, erledigaeth, a gwahaniaethu anghyfreithlon, yn ystod eu cyflogaeth, yn erbyn cydweithwyr, cwsmeriaid, cyflenwyr a'r cyhoedd..

5.5 Bydd y Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau teg a digonol yn bodoli ar gyfer ymdrin yn effeithiol a chofnodi pob agwedd ar y berthynas gyflogaeth, gan gynnwys recriwtio a dethol. Dylid annog cydweithwyr i hysbysu'r Adran Pobl a Diwylliant neu eu rheolwyr llinell am unrhyw achosion o wahaniaethu, fel bod pob honiad yn cael ei ymchwilio gyda chymorth yr Adran Pobl a Diwylliant.

5.6 Bydd y Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Profiad y Dysgwr yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau teg a digonol yn bodoli ar gyfer trin a chofnodi pob agwedd ar brofiad y dysgwr yn effeithiol, gan gynnwys recriwtio. Dylid annog dysgwyr i roi gwybod i diwtor eu cwrs neu unrhyw reolwr am unrhyw achosion o wahaniaethu, er mwyn ymchwilio i bob honiad.

5.7 Cymerir camau disgyblu yn erbyn unrhyw gydweithiwr nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion hyn.

**6. Dysgu a Datblygu**

6.1 Bydd y cyfrifoldebau mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hymgorffori'n gadarnhaol i ddysgu a datblygu ar bob lefel.

6.2 Bydd y Coleg yn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, datblygiad a chynnydd ar gael i bob cydweithiwr, a fydd yn cael eu helpu a'u hannog i ddatblygu eu llawn botensial, fel y gellir defnyddio eu doniau a'u hadnoddau'n llawn i wneud y gorau o effeithlonrwydd y sefydliad.

6.3 Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys hyfforddiant i reolwyr a phob cydweithiwr arall ynglŷn â'u hawliau a'u cyfrifoldebau o dan y polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'n ofynnol i gydweithwyr ymddwyn i helpu'r sefydliad i ddarparu cyfleoedd cyfartal mewn cyflogaeth, ac atal bwlio, aflonyddu, erledigaeth a gwahaniaethu anghyfreithlon.

**7. Yr Iaith Gymraeg**

7.1 Bydd pob gohebiaeth yn cael ei hanfon at unigolion yn eu dewis iaith, fel y nodir ar Itrent. Os bydd angen cyfarfod wyneb yn wyneb, cynhelir hwn hefyd yn eu dewis iaith. Bydd y coleg yn defnyddio cyfieithydd ar y pryd os bydd angen.

**8. Monitro**

8.1 Bydd effeithiolrwydd polisïau ac arferion cyflogaeth y coleg yn cael eu monitro drwy ddadansoddiad meintiol ac ansoddol. Yn benodol, cedwir cofnodion o rywedd, statws priodasol, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rhywedd, crefydd neu gred, ethnigrwydd ac anabledd gweithwyr, ymgeiswyr am swyddi

a dysgwyr. Bydd monitro yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

8.2 Bydd y Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cynnwys data meintiol ac ansoddol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei werthuso gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Bwrdd y Gorfforaeth a bydd yn cael ei gyhoeddi yn unol â hynny.

**9.0 Adolygu ac ymgynghori**

9.1 Bydd y polisi ar gael i bob cydweithiwr a dysgwr.

9.2 Adolygir y Polisi hwn yn rheolaidd yn unol â datblygiadau deddfwriaethol ac o fewn canllawiau arfer da yn y Coleg.

9.3 Fel rhan o'r adolygiad, bydd y Coleg yn ceisio ac yn ystyried barn rhanddeiliaid gan gynnwys dysgwyr, darparwyr lleoliadau gwaith, y trefniadau ymgynghori/trafod lleol o fewn y Coleg, a chyrff cydraddoldeb priodol.

**10.0 Cyswllt â pholisïau eraill:**

Ni ddylid darllen y polisi hwn ar ei ben ei hun ond dylid ei groesgyfeirio â holl bolisïau perthnasol y Coleg a pholisïau eraill y cytunwyd arnynt gan y gorfforaeth. Gall y rhain gynnwys:

- Polisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu
- Polisi Mamolaeth
- Polisi Tadolaeth
- Polisi Absenoldeb Rhiant
- Polisi Gweithio Hyblyg
- Cod Ymddygiad
- Polisïau Disgyblu a Chwyno
- Polisi Cwynion Dysgwyr